Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Panel Maethu Ceredigion | Ceredigion Fostering Panel

Porth Ceredigion

Disgrifiad o Rôl Aelodau Panel Maethu Ceredigion

Mae Gwasanaeth Maethu Cyngor Sir Ceredigion yn gwahodd unigolion i fynegi diddordeb yn y rôl uchod, sef bod yn aelod o Banel Maethu Annibynnol. Mae croeso arbennig i ymgeiswyr sydd eu hunain wedi eu mabwysiadu a/neu eu maethu yn ogystal ag ymgeiswyr â phrofiad proffesiynol neu bersonol o ofal cymdeithasol neu sydd â chefndir meddygol neu addysgol.

Ni roddir ystyriaeth i ymgeiswyr a gyflogir gan Gyngor Sir Ceredigion.

Lleoliad: Ar hyn o bryd cynhelir Paneli Maethu yn rhithiol, fodd bynnag bydd hi'n ofynnol cynnal rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn un o swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion.

Oriau: Un panel y mis 9.30 – 3.30 ar ddydd Iau (trydydd dydd Iau y mis)

Mae Aelodau Panel yn "unigolion a benodwyd" sy'n gweithredu eu swyddogaethau yn annibynnol. Felly, nid oes ganddynt statws cyflogeion ond mae gofyn iddynt fod â statws gweithwyr er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i Gyngor Sir Ceredigion brosesu taliadau a'r cynllun Talu Wrth Ennill/Cyfraniadau Yswiriant Gwladol angenrheidiol. Cyngor Sir Ceredigion sy'n gyfrifol am weithredu'r system hon ar enillion trethadwy oherwydd rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y sawl sy'n gweithio oddi ar y gyflogres (IR35).
Bydd yn rhaid i aelodau'r panel ddarparu eu manylion banc er mwyn ein galluogi i dalu eu ffioedd.
Gall Aelodau Panel Annibynnol y mae ganddynt statws busnes hunangyflogedig ymgymryd â'r rôl hon ond byddant hefyd yn ddarostyngedig i Reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i'r sawl sy'n gweithio oddi ar y gyflogres (IR35).
Cyfrifoldeb y Cadeiryddion a benodir yw ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu newidiadau o ran statws Talu Wrth Ennill drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Rôl Swydd

1. Cyn y cyfarfod, sicrhau bod y papurau a ddosbarthwyd yn cael eu darllen yn ofalus, bod yn bresennol yn y cyfarfod, bod yn barod i godi materion a chyfrannu at drafodaeth y panel.
2. Cymryd y cyfrifoldeb o gyfrannu at y broses o wneud argymhelliad ar gyfer pob achos, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad personol a phroffesiynol.
3. Bod yn bresennol mewn o leiaf 75% o gyfarfodydd y panel.
4. Bod yn barod i fod yn bresennol mewn paneli ychwanegol lle bo hynny'n bosibl, os gwneir cais am hynny.

5. Ynghyd ag aelodau eraill y panel, cymryd rhan yn y broses o gynnig cyngor ynghylch polisi a materion gweithdrefnol, yn ôl yr angen.
6. Mynd i'r afael â materion amrywiaeth a hybu arfer anwahaniaethol.
7. Sicrhau bod y trafodaethau ar holl bapurau'r panel yn cael eu cadw'n gyfrinachol.
8. Cymryd rhan mewn sesiynau ymsefydlu a sesiynau hyfforddi ar gyfer y panel; mae'r rhain yn cael eu cynnal o leiaf un diwrnod y flwyddyn.
9. Cymryd rhan mewn modd adeiladol yn adolygiad blynyddol aelodaeth y panel.
10. Tynnu sylw Cadeirydd y Panel at unrhyw wybodaeth bersonol am unigolion sy'n cael eu trafod gan y panel. Bod yn barod i adael y cyfarfod ar gyfer eitem benodol os nodwyd bod gwrthdaro o ran buddiannau.

Manyleb Person

Profiad a chymwysterau

- Profiad, naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol neu'r ddau, o osod plant mewn teuluoedd maeth ac o blant yn cael gofal gan rywrai heblaw eu teulu biolegol.
- Bydd angen cymhwyster gwaith cymdeithasol ar rai o aelodau'r panel.

Gwybodaeth

- Gwerthfawrogiad o effaith gwahanu a cholled ar blant.
- Ymwybyddiaeth o gyfoeth mathau gwahanol o deuluoedd a'u potensial i fodloni anghenion plant.
- Peth dealltwriaeth o ddiben a swyddogaeth y panel a'r asiantaeth y mae'r panel yn ei gwasanaethu, neu barodrwydd i ddysgu am hyn.

Galluoedd

- Medrau gwrando a chyfathrebu da.
- Y gallu i ddarllen, prosesu a dadansoddi llawer o wybodaeth gymhleth a fydd ar brydiau yn wybodaeth dorcalonnus.
- Y gallu i wneud asesiad a ffurfio barn, yn seiliedig ar wybodaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynir i'r panel a'r hyder i fynegi hyn yng nghyfarfod y panel.
- Y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad personol a/neu broffesiynol i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau mewn modd cytbwys a gwybodus.
- Y gallu i gydweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol
- Y gallu i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd panel, yn ôl y gofyn, gan gyrraedd yn brydlon a bod yn bresennol mewn o leiaf un diwrnod o hyfforddiant bob blwyddyn.

Agweddau

- Ymrwymiad i gadw plant o fewn eu teuluoedd eu hunain neu eu cymuned eu hunain lle bo hyn yn bosibl a chadw cysylltiad rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd maeth a'u teuluoedd biolegol lle'r ymddengys fod hyn er lles pennaf y plentyn.
- Ymrwymiad i faethu fel ffordd o ddiwallu anghenion plentyn, pan ymddengys fod hyn er lles pennaf y plentyn.
- Ymrwymiad i ddiogelu a hybu llesiant plant mewn gofal maeth.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth o ran ethnigrwydd, crefydd, rhyw, anabledd a rhywioldeb.
- Dealltwriaeth o'r angen i gadw cyfrinachedd ac ymrwymiad i'r angen hwnnw.

Bydd ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn y canlynol:

- hyfforddiant ymsefydlu llawn
- telir ffi o £100 ar gyfer pob diwrnod ar y panel (disgwylir i chi fod ar gael rhwng 9 a 5 ac mae'r ffi yn cynnwys amser darllen cyn y panel) a chostau teithio (o fewn cwmpas hyd at 50 milltir), os bydd gofyn bod yn bresennol wyneb yn wyneb mewn cyfarfod panel.

Gofynnwn i chi anfon eich CV ynghyd ag enw a manylion canolwr, a fydd yn rhywun o'ch swydd/asiantaeth ddiweddaraf a gofynnwn i chi anfon y rhain i'r cyfeiriad canlynol:

Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol
e-bost: Nerys.Lewis2@ceredigion.gov.uk

Cynhelir gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rôl hon.

Dyddiad cau: 12 Mehefin 2022

Os bydd eich CV yn dangos fod gennych y profiad a'r sgiliau i ymgymryd â'r rôl hon, yna fe'ch gwahoddir i gyfweliad.

.

.